CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

12 Medi/September, 2018

At : Aelodau Cygor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mawrth, 18 Medi, 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 10.00 o'r gloch yb** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 18 September, 2018 at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 10.00 a.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 27 Mehefin, 2018.

**3** **<u>ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL</u>** (Tudalennau 7 - 12)

**Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 11 Gorffennaf, 2018.

**4** **<u>CAIS GRANT BACH - RADIO YSBYTY GWYNEDD</u>** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Lewis Davies, Richard A Dew, John Griffith, Kenneth P Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Llinos M Huws, Carwyn Jones, Eric W Jones, Gwilym O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Shaun Redmond, Dylan Rees, Dafydd Roberts, J. Arwel Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Peter S Rogers, Dafydd R Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd. |
| | **Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)** |
| | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Richard Griffiths, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Alun Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth a disgyblion Ysgol Gyfun, Llangefni (mewn perthynas ag Eitem 5) |

---

**1 Ethol Cadeirydd**

Cafodd Mr Trefor Ll Hughes MBE ei ail ethol fel Cadeirydd.

Diolchodd Mr Hughes i Aelodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am yr hyder a ddangoswyd ynddo. Diolchodd hefyd i Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol am eu cefnogaeth a'u gwaith ar ran yr Ymddiriedolaeth.

**2 Ethol Is-gadeirydd**

Cafodd Mr Richard O Jones ei ail ethol yn Is-gadeirydd yn ei absenoldeb.

O ganlyniad i absenoldeb yr Is-gadeirydd fe GYTUNWYD ethol Mr Bob Parry OBE FRAgS fel Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**3 Datganiad o Ddiddordeb**

Dim.

## 4 Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2018 fel cofnod cywir.

## 5 Ysgol Gyfun Llangefni – Cystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' – Cais am Gyllid

Croesawodd y Cadeirydd Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni, Mr Clive Thomas, a disgyblion yr ysgol i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais am gyllid ar gyfer yr uchod.

Adroddodd y Trysorydd, fod disgyblion o Flwyddyn 11 Ysgol Gyfun Llangefni yn gynharach eleni, wedi ennill rownd Cymru y gystadleuaeth Formula 1 for Schools, sef prosiect STEM i gynllunio car fformiwla 1. Fel enillwyr cystadleuaeth Cymru, gwahoddwyd y disgyblion i gymryd rhan yn y gystadleuaeth ryngwladol a gynhelir yn Singapore ym mis Hydref, i gyd-fynd â'r Grand Prix Fformiwla 1. Nododd yr amcangyfrifir y bydd cost cymryd rhan yn y gystadleuaeth, yn cynnwys costau hedfan, llety, prydau bwyd, cost cystadlu a chost mynediad i'r Grand Prix ar gyfer y disgyblion a'r athrawon fydd yn eu hebrwng tua £30,000. Mae'r ysgol wedi sicrhau cyllid gan gwmnïau preifat i dalu cyfran o'r costau a bydd rhieni a disgyblion yn codi arian hefyd er mwyn sicrhau y gall y disgyblion fynychu'r gystadleuaeth.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Llangefni a eglurodd gefndir y gystadleuaeth a'r llwyddiant yr oeddent wedi'i gael hyd yma o gael eu dewis yn Bencampwyr Cymru yn y Rowndiau terfynol 2018 ynghyd ag yn y 3 Uchaf yng Ngwobr Hunaniaeth Tîm Ferrari, y 3 Uchaf yng Ngwobr Arddangos Pit a'r 3 Uchaf yn y Wobr Nawdd a Marchnata. Dywedodd y disgyblion bod cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth 'F1 i Ysgolion' wedi ysbrydoli disgyblion ar draws yr ysgol i gymryd diddordeb mewn pynciau STEM. Fe wnaethant ddweud ei bod hi'n fraint gallu cynrychioli eu hysgol, Ynys Môn a Chymru yn y Rownd Derfynol Ryngwladol yn Singapore.

Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb fe adawodd cynrychiolwyr Ysgol Gyfun Llangefni y cyfarfod tra cynhaliwyd trafodaeth ar yr eitem.

Cefnogodd Aelodau'r Pwyllgor yn unfrydol y cais am gyllid a mynegwyd y dylid cydnabod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel cefnogwr o'r fenter.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Y dylai'r Ymddiriedolaeth genedlaethol wneud cyfraniad o £10k tuag at gais Ysgol Gyfun Llangefni am nawdd ar gyfer Rownd Derfynol Ryngwladol y gystadleuaeth 'F1 i Ysgolion' yn Singapore;**
- **Bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael ei gydnabod fel cefnogwr o fenter Ysgol Gyfun Llangefni.**

## 6 Menter Môn – Prosiect LEADER

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais gan Menter Môn i ddefnyddio'r arian a gymeradwywyd i bwrpas arall.

Adroddodd y Trysorydd, ym mis Ionawr 2018, cytunodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i ddyrannu swm o £191,438 i Menter Môn fel arian cyfatebol mewn perthynas â chyllid Ewropeaidd a chyllid Llywodraeth Cymru fyddai'n caniatáu i'r prosiect Leader barhau tan fis Rhagfyr 2021. Adroddodd ymhellach, ym mis Ebrill 2016, argymhellodd y Pwyllgor Adfywio fod yr Ymddiriedolaeth yn dyrannu grant mawr o £50,000 i Menter Iaith Môn i gynorthwyo i gyflawni amcanion Strategaeth Iaith Gymraeg yr Ynys. Ym mis Chwefror 2018, cyflwynodd Menter Iaith Môn gais pellach am swm ychwanegol o £100,000 er mwyn parhau â'r gwaith. Wrth ddyrannu'r arian a fyddai ar gael ar gyfer grantiau mawr yn 2018, rhoddodd y Pwyllgor Adfywio yr holl arian a oedd ar gael i geisiadau newydd ac o ganlyniad, nid oedd unrhyw arian ar gael ar gyfer ceisiadau gan sefydliadau a oedd wedi derbyn nawdd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Adroddodd y Trysorydd ymhellach bod Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn wedi cysylltu â Swyddogion yr Ymddiriedolaeth i weld a fydd yr Ymddiriedolaeth yn caniatáu trosglwyddiad o £25,000 o gyllid o'r prosiect LEADER er mwyn gallu ei ddefnyddio ar gyfer prosiect Menter Iaith Môn.

Nododd rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth fod Menter Iaith Môn yn hanfodol ar gyfer datblygiad yr Iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Nodwyd fod Menter Iaith Môn yn cefnogi disgyblion a theuluoedd o fewn ysgolion yr Ynys wrth hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.

Holwyd a fyddai trosglwyddo cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiect LEADER Menter Iaith Môn yn cydymffurfio â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dyrannu Grantiau gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn'. Ymatebodd y Trysorydd na chafodd y cais gan Menter Iaith Môn ym mis Chwefror 2018 ei gymeradwyo o ganlyniad i argymhelliad yr Ymddiriedolaeth llawn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr, 2017 y bydd ceisiadau sydd wedi derbyn nawdd grant yn ystod y bum mlynedd diwethaf ond yn cael eu hystyried unwaith y bydd yr holl geisiadau eraill wedi eu hystyried ac os oes arian dros ben ar gael yn dilyn ystyried y ceisiadau hynny. Dywedodd hefyd fod Menter Môn wedi nodi petai'r Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo trosglwyddiad y £25k o'r prosiect LEADER i Menter Iaith Môn y byddai modd iddynt gael arian cyfatebol o ffynonellau eraill er mwyn crafangu'n ôl y cap o fewn y prosiect LEADER. Nododd y byddai'r cynllun gyda Menter Iaith Môn yn dod i ben os na gymeradwyir y trosglwyddiad cyllid hwn. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd ymddiriedol i amddiffyn yr arian elusennol. Nododd ymhellach, os nad oedd Menter Môn angen yr holl gyllid a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth tuag at y Prosiect LEADER yna dylent ddychwelyd yr arian yn hytrach na throsglwyddo'r arian i brosiect arall.

Yn dilyn trafodaeth bellach **PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais er mwyn galluogi Swyddogion yr Ymddiriedolaeth i drafod y cais ymhellach gyda Menter Môn.**

**Yn dilyn eitem 6, gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod ac fe gadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan yr is-gadeirydd.**

*Ymataliodd Mr Dafydd Roberts ei bleidlais.*

**7 Neuadd Bentref Llanfairynghornwy – Diweddariad Grant**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd y gwnaeth Bwyllgor Neuadd Bentref Llanfairynghornwy gais i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym Mai 2017 am arian i wneud gwaith ailwampio i'r Neuadd Bentref, ar gost a amcangyfrifwyd fyddai'n £12,420. Cymeradwywyd grant o £8k gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2017. Dywedodd, wrth i'r adeiladwr wneud y gwaith o dynnu'r nenfwd y gwelwyd bod hefyd angen gwneud gwaith ar y to a drychiad blaen allanol yr adeilad ac na fyddai pwrpas parhau â'r gwaith y tu mewn tan y byddai'r gwaith tu allan wedi'i gwblhau. Mae Pwyllgor y Neuadd Bentref wedi cael cyfanswm o £12,134 o gostau hyd yma ac o hynny maent wedi ariannu £4,134. Gwnaed cais am Grant Mawr pellach i'r Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2018. Roedd y cais yn un ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu mewnol, addurno, gosod system wresogi a tharmacio tu allan yr adeilad. Yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2018, fe ddyfarnodd yr Ymddiriedolaeth £26,388 tuag at gyfanswm cost y prosiect sef £34,743 h.y. byddai'r Ymddiriedolaeth yn ariannu 76% o'r gwaith. Yn ystod Ymweliad Ymgysylltu â'r Prosiect gyda Phwyllgor y Neuadd Bentref, gwelwyd nad oedd yr arian cyfatebol a nodwyd yn y cais bellach ar gael ac nad oedd gan y Pwyllgor ddigon o gyllid er mwyn eu galluogi nhw i wneud y gwaith a gymeradwywyd yn yr ail gais. Mae angen gwneud gwaith ar frys ond bellach does dim digon o gyllid ar gael i'r Pwyllgor allu cwblhau'r gwaith fel y nodwyd yn eu cais gwreiddiol. Adroddodd y Trysorydd ymhellach, yn dilyn trafodaethau â Phwyllgor y Neuadd Bentref, yr ystyriwyd y dylid ail edrych ar y cais am nawdd grant ac y dylai'r Ymddiriedolaeth Elusennol ariannu'r gwaith mewnol yn y Neuadd Bentref ond na ddylid gwneud y gwaith tarmacio gan leihau'r grant i £22,343.60 ond canlyniad hyn fyddai bod yr Ymddiriedolaeth yn ariannu 100% o'r gwaith. Byddai'r gwaith tarmacio yn cael ei ohirio tan y gallai'r Pwyllgor ddod o hyd i'r arian.

Nododd rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth bod y Neuadd Bentref yn Llanfairynghornwy yn adnodd cymunedol hanfodol gan mai dyma'r unig neuadd bentref yn yr ardal. Nodwyd bod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud ar y Neuadd Bentref ond nad oes modd ei defnyddio fel ag y mae hi ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod Pwyllgor y Neuadd Bentref yn cynnwys grŵp bach o wirfoddolwyr a bod camddealltwriaeth wedi digwydd mewn perthynas â'r costau sydd ynghlwm â'r prosiect hwn.

Mynegwyd pryderon gan rai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth fod angen cyflwyno Achos Busnes cadarn gydag achosion o'r fath a'i bod yn annheg rhoi nawdd o 100% i'r prosiect hwn o gymharu â cheisiadau eraill sy'n derbyn 76% o nawdd tuag at y costau.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r prosiect ond gydag amserlen waith wedi'i hadolygu, costau prosiect is a gostyngiad yn lefel y grant.**

**CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**8 Llywodraethiant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Cymdeithas Elusennol Ynys Môn.**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd yn gofyn am awdurdod i drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r Gymdeithas Elusennol.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, bod YEYM yn ei gyfarfodydd ym mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017 wedi penderfynu creu cymdeithas elusennol gofrestredig [CEG] a chytunodd ar nifer o ddarpariaethau ynglŷn â ffurf a chyfansoddiad y CEG. Enw'r CEG fyddai "Cymdeithas Elusennol Ynys Môn / The Isle of Anglesey Charitable Association" [Y Gymdeithas]. Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2016 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad gan gyfreithwyr cwmni Browne Jacobson a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2017 cytunodd YEYM i greu'r CEG a dirprwyo i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yr hawl i gyflwyno'r cais ffurfiol a delio â materion cysylltiedig yn unol â chyngor gan Browne Jacobson. Nododd mai'r brif weithred angenrheidiol fydd trosglwyddo asedau'r Ymddiriedolaeth Elusennol o'u perchnogaeth pbesennol gyda'r ymddiriedolaeth elusennol a sefydlwyd ym 1990.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD :-**

- **Awdurdodi trosglwyddo'r asedau elusennol a chronfeydd ariannol o YEYM i'r Gymdeithas**
- **Dirprwyo i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd YEYM, y Trysorydd ac unrhyw swyddog arall y mae'r Ysgrifennydd yn ystyried yn briodol, y grym i drosglwyddo'r asedau ar ddyddiad y bernir ei fod yn briodol**
- **Rhoi cyfarwyddyd i Browne Jacobson gymryd camau i drosglwyddo'r asedau ac i roi cyngor fel y mae'r Ysgrifennydd yn gweld sydd orau.**
- **Dirprwyo i'r Ysgrifennydd yr hawl i ddelio â'r tasgau gweinyddol a restrir ym mharagraff 3.3 uchod sydd angen eu cwblhau cyn neu yn ystod cyfarfod cyntaf Y Gymdeithas wedi iddi dderbyn yr asedau elusennol;**
- **Dirprwyo i'r Ysgrifennydd yr hawl i alw cyfarfod cyntaf Y Gymdeithas wedi i'r asedau gael eu trosglwyddo iddi.**

**Mr Trefor Ll Hughes MBE**

**Cadeirydd (eitemau 1 i 6)**

**Mr Bob Parry OBE FRAgS**
**Is-gadeirydd dros dro yn y Gadair (ar gyfer eitemau 7 i 8)**

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Lewis Davies, R Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Dylan Rees a Margaret M Roberts |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cynorthwywr Gweinyddol (CS),<br>Cyfrifydd dan Hyfforddiant (NJO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Llinos Medi Huws a Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESEENOL:** | T Ll Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Vaughan Hughes yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mrs Margaret M Roberts yn Is-gadeirydd.

**3 Datganiad o Ddiddordeb**

Gwnaeth Mr Lewis Davies ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 038 (Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon) ac ni chymerodd unrhyw ran yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y cais hwn.

Gwnaeth Mr. T Ll Hughes MBE, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 033 (Treseifion – Cymdeithas Cae Cybi) ac ni chymerodd unrhyw rhan yn y drafodaeth ar y cais. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

(Nodwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn ei chyfarfod ar 19 Gorffennaf, 2017).

**5 Grantiau Blynyddol 2018/19**

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried y ceisiadau a oedd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dyrennir arian yn flynyddol ar gyfer prosiectau yn y categorïau canlynol:

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychan)
- Grantiau Eraill (grantiau unwaith ac am byth yn bennaf)

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2018, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016 i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau Grantiau Bychan a, felly, dim ond rhaid nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei wneud o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grant Cyfleusterau'r Gymuned a Chwaraeon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

Cafodd y ceisiadau eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac roedd copi yn Atodiad C yr adroddiad.

**Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon 2018/19 :-**

| | | |
|---|---|---|
| 001 – 3DKids Môn/Anglesey | I gynnal gweithgareddau ar gyfer plant gydag anableddau a'u teuluoedd | **DIM**<br><br>*(wedi derbyn grant i'r un pwrpas yn 2016/17)* |
| 002 – Music in Hospitals and Care | I ran gyllido cerddoriaeth ac atgofion.<br><br>Cyfres blwyddyn o gyngherddau byw dwyieithog i ddod â llawenydd a chynyddu atgofion ar gyfer yr henoed a phobl ynysig sy'n byw mewn cartrefi preswyl ar yr Ynys | **£5,468** |
| 005 - Clwb Pêl Droed Bae Trearddur | Gwella a chynnal a chadw y tiroedd | **DIM**<br>*(wedi derbyn grant yn 2016/17)* |
| 006 – Roberts & Susan Howe | Gwneud ochrau ffyrdd yn fwy deniadol | **DIM**<br>*(dim yn gymwys oherwydd mai cais gan unigolion yn hytrach na sefydliad ydyw)* |
| 007 – Sefydliad Pritchard Jones | I brynu byrddau ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithgareddau | **£618** |
| 008 – Ynys Môn Ramblers | Prynu offer ac eitemau diogelwch cysylltiedig | **£1,522**<br>*(ar yr amod y derbynnir ail ddyfynbris ar gyfer y gwaith)* |
| 009 - Ffedarasiwn Sefydliad y Merched Môn | Addurno tu mewn a tu allan i'r neuadd a'r amgueddfa ynghyd â deunydd marchnata | **£644**<br>*(tuag at gost y deunydd marchnata yn unig. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi costau paentio ac addurno yn y gorffennol)* |
| 010 – Cantorion Menai | Perfformio cyngerdd o waith cerddor lleol | **DIM**<br>*(roedd y digwyddiad wedi cael ei gynnal cyn cyfarfod y Pwyllgor)* |
| 011 – Canolfan Gymuned David Hughes | Gosod lifft gyda mynediad i'r llawr cyntaf | **£8,000** |

| | | |
|---|---|---|
| | | *(ar yr amod y derbynnir copi o'r brydles ar gyfer Canolfan Gymuned David Hughes)* |
| 012 – Beaumaris Duplicate Bridge Club | Prynu peiriant delio | **£1,620** |
| 013 Sefydliad y Merched Llaneilian | Uwchraddio'r llawr i garped | **DIM** |
| 015 - Neuadd Goffa Gymunedol Porthaethwy | Uwchraddio'r toiledau | **£8,000** |
| 016 – Clwb Pêl-droed Bron Goronwy | Diweddaru ac adnewyddu'r toiledau yn yr ystafelloedd newid | **£2,380**<br>*(dyrannu'r grant er mai dim ond 16 o flynyddoedd sydd ar ôl ar y brydles i'r Clwb Pêl-droed. Ystyriwyd y byddai angen cawodydd newydd cyn i'r brydles ddod i ben)* |
| 017 – Cybi Poets | Digwyddiad undydd o lefaru, barddoniaeth, bandiau, sgwrs ar R.S. Thomas a chystadleuaeth farddoniaeth ddwyieithog | **£800** |
| 018 – MônSwn | I brynu offer cludadwy ac hwylus i'w osod | **£1,539** |
| 019 – Clwb Pêl-droed Amlwch | Adnewyddu to'r adeilad, gosod insiwleiddiwr "Box Profile", gwteri newydd a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol | **£7,350**<br>*(ar yr amod fod y gwaith yn cael ei gymeradwyo gan adeiladwyr proffesiynol oherwydd y bydd yn cael ei wneud gan aelodau'r Clwb)* |
| 020 - Clwb Bowlio Dan Do Caergybi | Matiau Bowlio newydd | **£1,000** |
| 021 – Danger Point Limited | Cyllido prosiect ar gyfer plant o ysgolion ar hyd a lled Ynys Môn | **DIM**<br><br>*(nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi gweithgareddau ysgol yn y gorffennol)* |
| 022 – Hwyliog Môn | I wella ei dudalen cyfryngau cymdeithasol/tudalen we er mwyn codi eu proffil yn y gymuned | **£1,750** |
| 023 – Clwb Gymnasteg Ynys Môn | Prynu offer | **DIM**<br>*(wedi cael grant yn 2016/17)* |
| 024 - Cymdeithas Rhandir Llangefni Allotment Association | Prynu gliniadur a chreu llwybrau pob tywydd | **£3,092** |
| 025 – Neuadd Eglwys y Santes Fair, Caergybi | Gosod system wresogi newydd yn y neuadd | **£7,320** |
| 026 – Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen | Prynu meinciau ar gyfer lle chwarae Rhostrehwfa | **£700** |
| 027 – Radio Ysbyty Gwynedd | Uwchraddio offer darlledu Stiwdio 2 yn Radio Ysbyty Gwynedd | **£6,882**<br><br>*(yn amodol ar farn gyfreithiol ynghylch a fedr yr Ymddiriedolaeth Elusennol roddi grant i sefydliad sy'n darparu gwasanaeth i fwyafrif o bobl nad ydynt yn byw ar yr Ynys. Dirprwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i roddi grant ai peidio i'r Trysorydd wedi iddi* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *dderbyn y farn gyfreithiol.* |
| 028 – Clwb Pêl-droed Llangoed a'r Cylch | I brynu peiriant torri gwair y mae modd eistedd arno a chynhwysydd storio | **£4,611**<br><br>*(yn amodol ar dderbyn dyfynbris ar gyfer y cynhwysydd storio)* |
| 029 – Canolfan Penmynydd | Atgyweirio'r gegin | £5,345<br><br>*(yn amodol ar gael cadarnhad fod gan y sefydliad eu harian eu hunain i dalu 30% tuag at y costau)* |
| 030 – Menter Neuadd St Gwenfaen, Rhoscolyn | Uwchraddio'r toiledau | **£7,905** |
| 031 – Byd Dawns Môn | Prynu offer fel matiau, drychau ac ati i ymarfer ar gyfer cystadleuthau cenedlaethol | **£8,000** |
| 032 – Grŵp Llyfrau Gwrando | I ymestyn ei ystod o offer llyfrau gwrando ac i ymgymryd â nifer o ymweliadau â'i aelodau dall a rhannol ddall | **£1,245** |
| 033 – Cymdeithas Cae Cybi, Treseifion | Prynu peiriant torri gwair y gellir eistedd arno | **£2,660** |
| 034 – Grŵp Treftadaeth Caergybi | Trefnu gweithgareddau coffa canmlwyddiant R.M.S. Leinster a ddinistriwyd gan dorpedo yn 1918 | **£5,250** |
| 035 – Neuadd Bentref Talwrn | Uwchraddio'r system gwres canolog | **£4,347** |
| 036 – Cyngor Cymuned Penmynydd a Star | Prynu siglenni ar gyfer y lle chwarae | **£2,100**<br><br>*(ar yr amod y derbynnir ail ddyfynbris)* |

(Dywedodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018 wedi rhoi sylw i nifer o geisiadau am Grantiau mawr a'u bod wedi penderfynu anfon un cais ymlaen i'r Pwyllgor hwn i'w ystyried ac roedd y cais am £8,000 i'w weld yn Atodiad B yr adroddiad. **PENDERFYNWYD caniatáu'r cais fel y'i nodir isod:-**

| | | |
|---|---|---|
| 038 – Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon | Adfer y giatiau haearn sydd o gwmpas Neuadd y Bentref ac sydd dros 100 oed. Byddai hynny'n gwella'r adeilad ac yn gwneud y gwneud y terfyn yn ddiogel. | **£8,100** |

Dywedwyd bod ceisiadau 007, 009, 017 a 026 am symiau bychan ac ystyriwyd y byddai'n briodol dweud wrth yr ymgeiswyr y gellir dyrannu hyd at £8,000 mewn grantiau bychan. Dylid dweud wrth yr ymgeiswyr na fyddant yn gymwys i dderbyn grant o Gronfa Grantiau Bychan yr Ymddiriedolaeth Elusennol am gyfnod o 5 mlynedd ond y gallant gyflwyno cais am Grant Mwy drwy'r Pwyllgor Adfywio. Felly, os ydynt yn penderfynu gwrthod y cais am grant, ni fyddai gwaharddiad arnynt rhag cyflwyno cais am Grant Bychan wedyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau a restrir uchod (£101,277) [y symiau a argymhellir], sef 70% o'r cyllid grant sydd ar gael.**

**Mr Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cais Grant Bach – Radio Ysbyty Gwynedd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad ar y cais a gofyn i aelodau'r Ymddiriedolaeth ailystyried y cais** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **Penderfynu a ddylid cefnogi'r cais diwygiedig** |

## 1. CEFNDIR

**1.1.** Cyflwynodd Radio Ysbyty Gwynedd gais Grant Bach am swm o £6,882 a fyddai'n caniatáu iddynt uwchraddio offer darlledu yn eu stiwdio yn Ysbyty Gwynedd.

**1.2.** Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ei ystyried yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2018. Argymhellodd Swyddogion y dylid gwrthod y cais gan fod Ysbyty Gwynedd yn darparu gwasanaeth i nifer fawr o gleifion nad ydynt yn preswylio yn Ynys Môn ac o'r herwydd y byddai'n groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth sy'n datgan:-

"Dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth fydd budd cyhoeddus cyffredinol poblu sy'n preswylio yn y fwrdeistref."

**1.3.** Yn gyffredinol, roedd Aelodau'r Pwyllgor o blaid cefnogi'r cais, gan gydnabod y buddion y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig i gleifion Ysbyty Gwynedd ond roeddent yn cydnabod y gallai dyfarnu'r grant fod yn groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am gyngor pellach gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r mater ac i ddirprwyo'r hawl i'r Trysorydd wneud penderfyniad terfynol ar y mater.

**1.4.** Yn dilyn hynny, trafodwyd y mater gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth a oedd yn cytuno â dehongliad gwreiddiol y SwyddogION o'r Weithred Ymddiriedolaeth gan y byddai preswylwyr heblaw am breswylwyr Ynys Môn yn elwa i'r un graddau â phreswylwyr Ynys Môn.

**1.5.** Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn y cyngor a roddwyd a'r penderfyniad i beidio â chefnogi'r cais ond fe wnaethon nhw ddatgan eu bod yn siomedig nad oedd modd rhoi rhyw fath o gefnogaeth i'r sefydliad, a gofynnwyd a fyddai modd i Swyddogion ganfod ffordd o helpu Radio Ysbyty Gwynedd. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cynnig ateb a fyddai'n caniatáu darparu rhywfaint o gefnogaeth ariannol i Radio Ysbyty Gwynedd.

## 2. CAIS DIWYGIEDIG

**2.1.** Ystyriodd Swyddogion a fyddai'n bosib dyfarnu grant i gyllido cyfran o gostau'r prosiect ar sail pro rata, yn seiliedig ar nifer y cleifion sy'n byw yn Ynys Môn o gymharu â chyfanswm y cleifion sy'n cael eu trin yn Ysbyty Gwynedd.

**2.2.** Mae Cyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau y byddai modd dyfarnu'r grant ar y sail hon ac y byddai'n cydymffurfio â gofynion Gweithred yr Ymddiriedolaeth.

**2.3.** Cyflwynodd Radio Ysbyty Gwynedd gais rhyddid gwybodaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mewn ymateb derbyniwyd y wybodaeth a ganlyn:-

| Blwyddyn Ariannol | Cleifion a Dderbyniodd Driniaeth | Preswylwyr Ynys Môn | Canran Preswylwyr Ynys Môn |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 53,095 | 17,527 | 33.01% |
| 2017/18 | 50,804 | 16,644 | 32.76% |
| 2018/19 | 17,216 | 5,793 | 33.65% |

**2.4.** Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner, 33% yw canran preswylwyr Ynys Môn sydd wedi bod yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd.

**2.5.** Drwy gymhwyso'r ganran hon i'r cais grant gwreiddiol o £6,882, ceir ffigwr grant diwygiedig o £2,271. Mae Radio Ysbyty Gwynedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos fod ganddynt arian digonol i gyllido'r £4,611 sy'n weddill.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1.** Fod yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo dyfarnu grant o £2,271 i Radio Ysbyty Gwynedd ar yr amod eu bod yn darparu'r cadarnhad a'r dystiolaeth arferol i Swyddogion eu bod wedi mynd i gostau i brynu'r offer y manylir arno yn y cais gwreiddiol.

**MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **11 MEDI 2018**